**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 yn Nos Fawrth 19 Chwefror 2019 yn Swyddfa Menter Fachwen, Cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Is-gadeirydd), Meirwen Lloyd, Hefin Jones, Phillip Roberts, Cemlyn Jones, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Martin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Clifford Williams, Richard Robinson, Haf Williams, Llywelyn Williams, Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn bresennol:** Rhian Williams (Cyngor Gwynedd)

**342. Croeso gan y Cadeirydd**

Yn sgil absenoldeb y Cadeirydd oherwydd salwch, cymerodd is-gadeirydd y Cyngor, Y Cynghorydd Avril Jones i gadair am y cyfarfod ac diolchwyd i bawb am droi allan i'r cyfarfod.

**343. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**344. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan a'i cofnodi fel yn briodol

**345. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ionawr 2019**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**346. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Cae chwarae Nant y Glyn – gwêl eitem 348 isod

Adroddwyd fod y Cynghorydd Hefin Jones wedi holi'r Cynghorydd Richard Robinson am y trefniadau ar gyfer gwagio bocsys ail gylchu yn y fynwent ac fod angen eu rhoi allan ar nos Fawrth.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ei fod yn disgwyl stoc o gyfarpar ar gyfer casglu ysbwriel

**347. I dderbyn cyflwyniad gan Rhian Wyn Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd.**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Rhian Williams o Gyngor Gwynedd am y sefyllfa bresennol parthed gwasanaethau bws yn Llanrug a Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolch i'r swyddog am ddod i'r cyfarfod

**348. I dderbyn adroddiad ar ymweliad a cae chwarae Nant y Glyn yn dilyn cyfarfod Ionawr.**

Adroddwyd fod cyfarfod wedi gynnal ar gae chwarae Nant y Glyn yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ar gyflwr y ffens ac fod angen gwaith o ail godi'r ffens i fyny.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i geisio tri pris ar adnewyddu'r ffens

**349. I dderbyn polisi gwefan gymdeithasol (eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau)**

Adroddwyd oherwydd ein bod yn defnyddio gwefan 'Nextdoor Llanrug' i hyrwyddo digwyddiadau fod angen polisi i ymdrin a sut mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio. Mae copi drafft o'r polisi eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau.

**Penderfynwyd:** Derbyn y polisi a'i hysbysu ar ein gwefan

**350. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Dim adroddiad ar gael oherwydd roedd y cynrychiolydd yn absennol

**351. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard fod yr ysgol yn mynd i gau yn swyddogol ar ddiwedd Awst.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**352. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cyllideb**

Erbyn hyn y Cyngor wedi cael y ffigyrau terfynol gan Llywodraeth Cymru ac fel y tybiwyd roedd twll o £13m yn y gyllideb. Erbyn hyn mae peth arbedion wedi eu cynllunio ac rhai arbedion effeithlonrwydd wedi ei gwneud, ond roedd hyn yn dal i olygu fod rhaid ffeindio mwy o arbedion. Y Cabinet wedi blaenoriaethu lle roeddynt hwy yn meddwl y gall arbedion eu gwneud, gweithdai wedi eu cynnal gyda'r cynghorwyr i gyd, i weld beth oedd eu blaenoriaeth hwy. Adroddiad terfynol yn mynd i'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth i wneud y penderfyniad terfynol ynghyd a faint i godi treth y cyngor.

**Ysgol Cwm y Glo**

Erbyn hyn mae'r Aelod Cabinet wedi cymeryd y penderfyniad i gychwyn y camau statudol i gau yr ysgol. Dyma'r amserlen isod:-

Bydd Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi ar 22 Chwefror 2019 a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn y cyfnod hwn.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd yr Adroddiad hwnnw yn nodi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac fe fydd yr Aelod Cabinet wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch dyfodol Ysgol Cwm y Glo.

Er mwyn gweithredu'r argymhellion, bwriedir dilyn yr amserlen arfaethedig isod:

| **Gweithred** | **Amserlen amlinellol** |
|---|---|
| Cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu (28 diwrnod) | 22 Chwefror – 22 Mawrth 2019 |
| Aelod Cabinet Addysg i ystyried adroddiad ar unrhyw wrthwynebiadau | 26 Mawrth – 29 Mawrth 2019 |
| Aelod Cabinet yn cyhoeddi taflen benderfyniad | 2 Ebrill 2019 |
| Penderfyniad yn weithredol | 9 Ebrill 2019 |
| Ysgol Cwm y Glo yn cau yn ffurfiol (yn ddibynnol ar benderfyniad Aelod Cabinet Addysg) | 31 Awst 2019 |

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**353. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**<u>Ffordd Crawia</u>**

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail-wynebu y rhannau gwaethaf o'r ffordd rhwng Y Sgwar ac Ysgol Brynrefail ym mis Chwefror. Bydd y gwaith yn dechrau ar 25ain o'r mis ac yn para am oddeutu 5 diwrnod. Yn anffodus bydd hyn yn effeithio'r gwasanaeth 83 Deiniolen – Llanrug – Bethel – Caernarfon. Bydd y daith felly yn mynd Deiniolen - Llanrug - Caernarfon (NI FYDD yn gallu galw ym Methel am y cyfnod hwn). Bydd hyn yn cael ei hysbysu ar bws y gwasanaeth 83, ar wefan y Cyngor a gan Arriva.

**<u>Cais Cynllunio Cae'r Eglwys, Rhif C18/0942/23/LL.</u>**

Cafodd y cynllun diwygiedig ei ystyried gan bwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd ar 11 Chwefror. Y cynllun oedd: saith byngalo (un yn fforddiadwy) a dau 'semi'. Roedd y cynllun diwygiedig yn cynnwys gosodiadau oedd yn cynnig trefn parcio gwell na'r cynlluniau blaenorol, a threfn sy'n llai tebygol o arwain at broblemau parcio 'ar y ffordd'. Penderfyniad y pwyllgor oedd cytuno gydag argymhelliad yr adran gynllunio i ddirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatau'r cais yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd gwblhau cytundeb er mwyn sicrhau bod un o'r naw tŷ yn dŷ fforddiadwy

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**354. I ystyried cais am grant gan Glwb Hoci Caernarfon**

**Penderfynwyd:** Caniatáu grant o £100 tuag at Glwb Hoci Caernarfon

**355. Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon**

Adroddwyd fod gwobr o £50 wedi ei dderbyn parthed y gystadleuaeth yma.

**Penderfynwyd:** Clustnodi'r arian ar gyfer tacluso'r Gymuned

**356. Adroddiad blynyddol ar waith y Cyngor Cymuned i drigolion**

Nodwyd ei fod yn ddisgwyliedig i'r Cyngor baratoi taflen ar gyfer trigolion yn cadarnhau beth mae'r Cyngor wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac beth mae'n obeithio gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen a paratoi taflen i'r dosbarthu

**357. Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0037/23/MG

**Lleoliad y Safle:** Tir ger Bigil, Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554BE

**Dyddiad Cofrestru:** 09-Ion-2019

**Math o Gais:** Materion a gadwyd yn ôl

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Cais materion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd rhif C16/1574/23/AM ar

gyfer codi tŷ deulawr

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim Gwrthwynebiad

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0065/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Ty Isaf, Ceunant, Caernarfon, LL554RY

**Dyddiad Cofrestru:** 22-Ion-2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Gwyro ffordd fynediad at fodurdy domestig

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0068/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Pantafon Bach, Llanrug, Caernarfon, LL554RA

**Dyddiad Cofrestru:** 24-Ion-2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad un llawr ynghyd a chodi modurdy a storfa newydd

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

d) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0060/23/AC

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Bryn Llan Farm, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PY

**Dyddiad Cofrestru:** 06-Chwe-2019

**Math o Gais:** Rhyddhau Amodau

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Rhyddhau amod 6 o ganiatad cynllunio C18/0738/23/LL (rhaglen waith archeolegol

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

e) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0137/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Minffordd Cottage, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554PU

**Dyddiad Cofrestru:** 12-Chwe-2019

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

f) **Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Trosi adeilad allanol yn anecs preswyl

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau blaenorol

**358. Apwyntio archwilwyr mewnol ar gyfer archwiliad 2018 / 2019**

**Penderfynwyd:**Apwyntio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol ar gyfer archwiliad 2018 / 2019

**359. Penderfyniad ar glwb ieuenctid ar ôl 1af Ebrill 2019**

Adroddwyd fod Gwasanaeth ieuenctid Cyngor Gwynedd angen gwybod beth yw bwriad y Cyngor ar ol 1af o Ebrill 2019 gyda'r clwb ieuenctid**.**

**Penderfynwyd:** Trefnu cyfarfod gyda'r gwasanaeth ieuenctid i drafod oblygiadau ar gyfer 2019 / 2020

**360. Cwynion ar faw cŵn**

Nodwyd fod cwynion wedi do di law am faw cwn ger mynediad at yr Ysgol Gynradd ac fod arwyddion wedi derbyn gan Gyngor Gwynedd i'w rhoi fyny ar y ffordd wrth ymyl yr ysgol.

**Penderfynwyd:** Rhoi'r arwyddion i fyny ac yn unol a Cyngor y swyddog o Gyngor Gwynedd, eu symud o gwmpas yr ardal o dro i dro.

**361. Lleoliad cyfarfod mis Mawrth 2019**

Yn y Sefydliad Coffa, Llanrug

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad